# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 23 Chwefror 2017
# i'w hateb ar 28 Chwefror 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Prif Weinidog

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drafodaethau diweddar gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â pholisïau amaeth a chefn gwlad yn dilyn y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0468(FM)**W**

**2. Lee Waters (Llanelli):** Beth sy'n cael ei wneud i hyrwyddo'r gyfres Library of Wales mewn ysgolion? OAQ(5)0474(FM)

**3. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau sy'n cychwyn? OAQ(5)0479(FM)

**4. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar Dorfaen? OAQ(5)0464(FM) **TYNNWYD YN ÔL**

**5. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau cysylltiadau rhyngwladol Cymru? OAQ(5)0469(FM)

**6. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu trigolion cartrefi mewn parciau sy'n wynebu talu ffi comisiwn o 10 y cant ar werthu eu cartref? OAQ(5)0471(FM)

**7. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau teithio rhatach? OAQ(5)0463(FM)

**8. David Rees (Aberafan):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pobl o gymunedau difreintiedig i gael cyflogaeth a chodi allan o dlodi? OAQ(5)0466(FM)

**9. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am orchmynion amddiffyn anffurfio organau cenhedlu benywod yng Nghymru? OAQ(5)0470(FM)

**10. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gynyddu nifer y meddygon teulu yng Nghymru? OAQ(5)0477(FM)

**11. Rhianon Passmore (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddarparu cymorth ychwanegol i fusnesau'r stryd fawr yn Islwyn? OAQ(5)0476(FM)

**12. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gydraddoldeb mewn darpariaeth gwasanaethau llywodraeth leol? OAQ(5)0478(FM)

**13. Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru parthed gofal canolraddol ar gyfer pobl hŷn yn ardal Casnewydd? OAQ(5)0475(FM)

**14. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i leihau'r marwolaethau sy'n ymwneud ag yfed yng Nghymru? OAQ(5)0473(FM)

**15. Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0472(FM)